



## CABINET

### COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWDYD DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER, 23 MAWRTH 2022 AM 10:30A.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) – Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

N. George (Gwastraff, Diogelu'r Cyhoedd a Strydoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), J. Pritchard (Seilwaith ac Eiddo), Mrs E. Stenner (Perfformiad, Economi a Menter), R. Whiting (Dysgu a Hamdden) ac A. Whitcombe (Cynaliadwyedd, Cynllunio a Fflyd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol) ac S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog A151)

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), L. Allen (Prif Gyfrifydd Grŵp - Tai), M. Lloyd (Pennaeth Seilwaith), E. Pryce (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg - Polisi a Strategaeth), N. Williams (Pennaeth Tai), K. Watkins (Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Thenantiaid), S. Jones (Rheolwr Cefnogi Pobl, Gwasanaethau i Oedolion), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), M. Harris (Swyddog Cymorth y Pwyllgor/Chauffer) ac M. Afzal (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor).

a'r

Cynghorydd C.P. Mann.

#### TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio, ac na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – [Cliciwch Yma i'w Wyllo](#). Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

#### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd S. Cook (Gofal Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Yr Economi a'r Amgylchedd) a D. Hartevelld (Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg).

## 2. DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod nac yn ystod y cyfarfod.

## 3. CABINET – 9 MAWRTH 2022

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2022 fel cofnod cywir.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn nodi'r adroddiadau sydd wedi'u trefnu hyd at 6 Ebrill 2022. Atgoffwyd yr Aelodau bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithio, ac felly mae'n bosib y bydd yn newid.

Rhoddodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Flaenraglen Waith y Cabinet. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod cyfarfod nesaf y Cabinet wedi'i drefnu i ystyried materion brys gan ei fod yn dod o fewn y cyfnod cyn-etholiadol.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith. Drwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

## 5. CYHOEDDI DATA BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU 2021 – RHEOLIADAU DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 (DYLETSWYDDAU PENODOL AC AWDURDODAU CYHOEDDUS) 2017

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig 2021 yr Awdurdod ar y bwllch cyflog rhwng y rhywiau ar wefan y Cyngor a'r Llywodraeth erbyn 30 Mawrth 2022.

Dywedwyd wrth y Cabinet, o dan Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017, ei bod yn ofynnol i bob sefydliad a restrir yn Atodlen 2 i'r rheoliadau sy'n cyflogi dros 250 o weithwyr adrodd yn flynyddol ar y bwllch cyflog rhwng y rhywiau o 2017 ymlaen. Fodd bynnag, dim ond i gyflogeion a benodir ac a reolir yn uniongyrchol gan y Cyngor y mae'r darpariaethau o dan y Rheoliadau hyn yn gymwys. Nid oes rhaid cynnwys cyflogeion sydd wedi'u penodi a'u rheoli gan benaethiaid/Cyrff Llywodraethu ysgolion yng nghwmpas Data'r Cyngor ynghylch y Bwllch Cyflog rhwng y Rhywiau.

Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Pobl fod y Datganiad Bwllch Cyflog rhwng y Rhywiau yn rhoi cipolwg ar ddata ar ddyddiad penodol a'i fod yn seiliedig ar ddata ar 31 Mawrth 2021. Sicrhaodd y Swyddog y Cabinet nad oedd yn arwydd bod problem o ran cyflog cyfartal o fewn y Cyngor o safbwynt cyflog, na bod dynion a menywod yn cael eu talu'n wahanol am yr un mathau o waith neu fathau tebyg o waith, mae'n seiliedig ar y dewis y mae cyflogeion wedi'i wneud o ran y rolau y maent yn eu cymryd. Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod hyn yn rhywbeth y dylai'r cyngor ei gydnabod a'i groesawu, ein bod fel sefydliad yn cynnig y cyfleoedd hyn i staff weithio'n hyblyg mewn gwahanol fathau o rolau.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Swyddog am yr esboniad ac ategodd yr angen i gydnabod y lluo o gyfleoedd i bob gweithiwr yn y Cyngor a welir yn y ciplun hwn o'r data.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhelliad yn yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog: –

Cytuno ar ddatganiad yr adroddiad ysgrifenedig sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1 sy'n manylu ar ddata bwlch cyflog rhwng y rhywiau i'w gyhoeddi ar-lein ar wefan y Cyngor a gwefan y Llywodraeth gan ddefnyddio'r gwasanaeth adrodd bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

## **6. CYNLLUN BUSNES Y GWASANAETH CYFLAWNI ADDYSG (GCA) 2022-2025**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar Gynllun Busnes terfynol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) 2022-2025 yn dilyn proses ymgynghori ranbarthol, gan gynnwys ystyriaeth gan y CMT a'r Pwyllgor Craffu Addysg ar 15 Chwefror 2022. Roedd y cynllun yn nodi prif flaenoriaethau'r GCA, yn dilyn prosesau hunanarfarnu cadarn y mae GCA o'r farn y byddant yn berthnasol i ganolbwyntio arnynt gyda fersiwn nesaf y Cynllun Busnes rhanbarthol ar gyfer 2022-2025.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Polisi a Strategaeth y GCA y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y Cynllun Busnes ac esboniodd y broses ymgynghori a sut roedd GCA wedi gwrandao ac wedi addasu'r cynllun i sicrhau bod anghenion dysgwyr Caerffili ac Ysgolion Caerffili yn cael eu diwallu.

Diolchodd yr Aelodau i GCA am gydweithio â Chaerffili ac am eu hymdrechion i ddiwygio'r cynllun yng ngoleuni sylwadau'r Awdurdod. Y farn oedd bod y cynllun wedi'i gryfhau drwy gydweithio â'r Awdurdod. Cofnododd yr Aelodau a'r Swyddogion eu gwerthfawrogiad i GCA wrth ymgysylltu â'r Awdurdod, yn enwedig drwy'r broses ymgynghori, a oedd wedi dod â llawer o argymhellion y cynllun yn fyw ac wedi caniatáu i'r Awdurdod siapio llawer o'r meysydd allweddol.

Ategodd y Prif Swyddog Addysg a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol y sylwadau a wnaed a chroesawyd yr ymrwymiad newydd i weithio mewn partneriaeth â GCA.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhelliad yn yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog: –

1. Sicrhau bod y Cynllun Busnes yn galluogi cefnogaeth a her briodol i ysgolion, a'i fod yn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yng Nghynlluniau Strategol Addysg Cyngor Bwrdeistref Caerffili.
2. Cymeradwyo Cynllun Busnes GCA 2022-2025.

## **7. CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2022/23**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau ystyried a chymeradwyo Cynllun Busnes Tai 2022/23 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2022 ar sail barhaus, yn flynyddol, yn dilyn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor Craffu ar Dai ac Adfywio ar 15 Mawrth 2022. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried barn y Pwyllgor Craffu a chymeradwyo cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor i ofyn am estyniad i gap benthyca'r Cyfrif Refeniw Tai i £90 miliwn er mwyn caniatáu i'r rhaglen adeiladu newydd fynd rhagddi.

Tynnodd y Pennaeth Tai sylw at rai o feysydd allweddol y cynllun. Nodwyd bod y cynllun yn cwmpasu cyfnod o 30 mlynedd ar gyfer rheoli asedau, cyllid a buddsoddiadau angenrheidiol yr Awdurdod. Fodd bynnag, y farn oedd y byddai'r Awdurdod yn elwa o ganolbwyntio ar y cyfnod

cychwynnol o 3-5 mlynedd lle gallai'r Swyddog fod â mwy o hyder mewn tybiaethau craidd a chynnydd mewn cyfraddau llog a rhent.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod yr anwadlwydd yn y farchnad, er enghraifft cost llafur, deunyddiau ac ati, yn debygol o effeithio ar y cynllun yn y blynyddoedd i ddod ac y byddai unrhyw newid i ragdybiaeth neu sensitifrwydd yn cael effaith sylweddol, felly er ei bod yn bwysig cynllunio am 30 mlynedd dylai'r ffocws nawr fod ar yr ychydig flynyddoedd cychwynnol.

Cyfeiriwyd at y lefelau benthyca presennol, sef £75 miliwn. Cadarnhawyd y byddai £45 miliwn o'r cyfalaf hwn yn cael ei dyrannu i Gynllun Safon Ansawdd Tai Cymru ac y byddai £30 miliwn yn cael ei buddsoddi yn y cyflenwad tai uwch. Fodd bynnag, nodwyd bod lefel y benthyca yn debygol o gynyddu wrth i'r Rhaglen Adeiladu Newydd fynd rhagddi, felly, gyda chymeradwyaeth y Cyngor, roedd yr Awdurdod yn bwriadu benthyca'r swm ychwanegol.

Tynnodd y Pennaeth Tai sylw'r Aelodau at Ddogfen Naratif y Cynllun Busnes sy'n nodi sut y mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gweithredu, ynghyd â heriau a thargedau'r Gwasanaeth wrth symud ymlaen. Nodwyd bod yn rhaid dangos y ddogfen yn y Cynllun Busnes. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y ddogfen yn cael ei mireinio ac y byddai'n cael ei chwblhau i'w hystyried gan y Cyngor. O ran y cynnydd mewn benthyca, cynghorwyd na fyddai ei angen tan y flwyddyn ariannol nesaf.

Croesawodd yr Aelodau'r adroddiad gan gefnogi ei argymhellion. Yn gyffredinol, y farn oedd bod angen y benthyca ychwanegol i gyflawni'r Rhaglen Adeiladu Newydd uchelgeisiol.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhelliad yn yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog: –

Cymeradwyo Cynllun Busnes Tai 2022/23 a'i gyflwyniad i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2022, ac yn flynyddol yn barhaus.

ARGYMHELLWYD bod yr adroddiad, am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog, yn mynd gerbron y Cyngor i ofyn am estyniad i gap benthyca'r Cyfrif Refeniw Tai hyd at £90 miliwn er mwyn caniatáu i'r rhaglen adeiladu newydd symud yn ei blaen.

## **8. STATWS CYFLWR TOMENNI GLO A THREFN ARCHWILIO**

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i barhau i ddefnyddio polisi a gweithdrefnau Caerffili ar gyfer rheoli archwiliadau tomenni a rhaglen cynnal a chadw, parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Glo a pharhau i archwilio opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â gofynion cynnal a chadw ar gyfer tomenni gwastraff preifat.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu ar yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei gyfarfod ar 22 Mawrth 2022. Cafodd canlyniad y trafodaethau hyn ei fwydo'n ôl i Aelodau'r Cabinet.

Cadarnhawyd bod y Pwyllgor Craffu wedi cefnogi'r argymhellion yn unfrydol. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i awdurdodau lleol fynd i mewn i dir preifat oni bai ei fod yn cael ei ystyried yn argyfwng. Felly, argymhellodd aelodau'r Pwyllgor Craffu y dylai'r Awdurdod drafod gyda pherchnogion i gytuno ar fynediad i'r tir pe bai angen gweithio ar y tomenni preifat.

Cydnabu aelodau'r Pwyllgor Craffu fod y rhan fwyaf o'r tomenni yn y Fwrdeistref Sirol ar dir preifat ac roeddent o'r farn bod angen deddfwriaeth gryfach er mwyn ei gwneud yn haws i swyddogion ac arbenigwyr fynd ar y tir hwnnw.

Nododd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu deddfwriaeth newydd a bod Comisiwn y Gyfraith wedi cael cyfarwyddyd i ymchwilio i'r mater. Rhagwelwyd y byddai Bwrdd Goruchwylio newydd yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r broses o gofrestru, dosbarthu a rheoli tomenni ledled Cymru a'r gobaith oedd y byddai hyn yn arwain at gysondeb yn gyffredinol.

Sicrhawyd yr Aelodau fod y tomenni yn y Fwrdeistref Sirol wedi'u harchwilio'n drylwyr ac nad oedd unrhyw faterion yn peri pryder. O ran y tomenni preifat, nodwyd bod Swyddogion yn gweithio gyda'r Awdurdod Glo i reoli a nodi materion sy'n peri pryder. Tynnwyd sylw at y ffaith bod un domen breifat wedi cofnodi rhywfaint o symudiad; fodd bynnag, sicrhawyd yr Aelodau nad oedd yn peri pryder ar hyn o bryd, bod y domen yn cael ei monitro'n ofalus ac roedd Swyddogion yn gweithio gyda'r trefeddiannwr i ddatrys y mater.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i reoli a chynnal tomenni. Gwariwyd dros £1,000,000 ar waith tomenni y llynedd (2021/22) a rhagwelwyd y byddai cryn dipyn o waith yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol hon (2022/23).

At hynny, rhoddodd y Swyddog y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y wybodaeth a oedd newydd ddod i law mewn perthynas â Chomisiwn y Gyfraith. Cadarnhawyd y byddai gwaith Comisiwn y Gyfraith yn cael ei gyhoeddi ar 24 Mawrth 2022 ac roedd yn cynnwys 36 o argymhellion y byddai angen eu hadolygu a'u hystyried a chyflwyno adroddiad pellach i'r Aelodau ar y mater.

O ran y trafodaethau parhaus rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch ariannu, sicrhawyd yr Aelodau y byddai tomenni'n cael eu rheoli mewn ffordd gadarn a threfnus, a phwysleisiwyd nad oedd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch tomenni yn y Fwrdeistref Sirol.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhelliad yn yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog: –

1. Cymeradwyo'r defnydd parhaus o bolisi a gweithdrefnau Caerffili ar gyfer rheoli archwiliadau tomenni a rhaglen cynnal a chadw a gefnogwyd yn wreiddiol gan y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 02-04-2013.
2. Cymeradwyo cydweithio parhaus â Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Glo.
3. Cymeradwyo parhau i archwilio opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â gofynion cynnal a chadw ar gyfer tomenni gwastraff preifat.

## **9. STRATEGAETH Y RHAGLEN CYMORTH TAI**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am Strategaeth bresennol y Rhaglen Cymorth Tai ar gyfer y cyfnod 2022-2026 fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru bob pedair blynedd. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r un farn strategol o ran dull Caerffili o ymdrin â Gwasanaethau Atal Digartrefedd a Chymorth Tai.

Rhoddodd y Swyddog grynodedb o'r blaenoriaethau strategol allweddol a dywedodd mai dim ond drwy gydweithio â chydweithwyr ym maes iechyd, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaethau tai y gellid cyflawni'r blaenoriaethau. At hynny, tynnwyd sylw at y ffaith bod unigolion â phrofiad uniongyrchol o wasanaethau cymorth yn arbennig o bwysig.

Nodwyd bod y garfan o bobl y mae angen gwasanaethau cymorth arnynt yn newid yn barhaus ac roedd hyn yn her sylweddol wrth ddatblygu strategaeth ar gyfer cyfnod estynedig o amser. Fodd bynnag, cadarnhawyd y byddai'r blaenoriaethau yn y strategaeth yn parhau gan eu bod

yn seiliedig ar dystiolaeth hyd yma ac anghenion defnyddwyr gwasanaethau heddiw ac yn y dyfodol. At hynny, sicrhawyd yr Aelodau y byddai'r blaenoriaethau'n cael eu hadolygu, ac roedd y costau sy'n deillio o'r gwasanaeth yn unol â Grant Llywodraeth Cymru.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am amlinellu'r blaenoriaethau yn ogystal â'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r strategaeth ac roeddent yn arbennig o werthfawrogol o'r addasiadau yr oedd y gwasanaeth yn gallu eu gwneud pe bai ar ddefnyddwyr eu hangen.

Gofynnwyd am eglurhad ar y rhaglen hyfforddi ar gyfer Swyddogion sy'n gweithio gyda'r digartref. Cadarnhaodd y Swyddog fod hyfforddiant gorfodol helaeth wedi'i sefydlu i sicrhau llety hirdymor a chynaliadwy i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Roedd meysydd hyfforddi yn cynnwys iechyd a diogelwch, deddfwriaeth tai a deddfwriaeth digartrefedd, gyda llawer o'r cyrsiau'n cael eu hachredu drwy'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Nododd y Cabinet fod hyfforddiant helaeth i Swyddogion hefyd ar faterion allweddol fel atal hunanladdiad, camddefnyddio sylweddau ac unigolion sy'n dianc rhag trais a cham-drin domestig ac mae gan bawb sy'n dod i wasanaethau digartrefedd rywfaint o hyfforddiant sy'n seiliedig ar wybodaeth seicolegol a thrawma i sicrhau bod dealltwriaeth o'r rheswm pam mae unigolion yn dod i'r gwasanaethau yn y lle cyntaf, gan helpu i dorri'r cylch digartrefedd.

Cyflwynwyd sylw yn ymwneud â Thai Amlfeddiannaeth gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a oedd o'r farn y dylai'r maes gwasanaeth Cynllunio a Thai weithio'n gynharach ac yn fwy helaeth gydag Aelodau Lleol a thrigolion i nodi a chodi ymwybyddiaeth o dai amlfeddiannaeth, yn enwedig o ran tai amlfeddiannaeth preifat. Cydnabuwyd pryderon yr Aelod, a nodwyd nad oedd angen ymgynghori â'r Gwasanaethau Tai ynghylch cais preifat am Dŷ Amlfeddiannaeth ac yn aml iawn dim ond drwy gyswllt gydag Aelodau Ward Lleol neu Drigolion y daw'r gwasanaeth yn ymwybodol o'r cynnig, ac roedd y sefyllfa hon ymhell o fod yn ddelfrydol. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cabinet fod Swyddogion yn gwneud eu gorau glas mewn amgylchedd cymhleth iawn.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y flaenoriaeth ar gyfer rhoi terfyn ar ysgu ar y stryd ac a oedd unrhyw unigolion a gynorthwyr i lety hirdymor wedi dychwelyd i fyw ar y strydoedd. Cadarnhawyd, oherwydd y tîm allgymorth gweithredol a'r hyfforddiant a'r cymorth a oedd yn cael eu cynnig i ddefnyddwyr gwasanaeth, fod y gyfradd dychwelyd yn sylweddol isel. Roedd swyddogion ac Aelodau yn falch o'r cynnydd a wnaed.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhelliad yn yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog, y dylid ystyried y strategaeth a chytuno ar ei chyfeiriad strategol unigol ar gyfer cymorth sy'n gysylltiedig â thai ac atal digartrefedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:15A.M.

Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 6 Ebrill 2022.

---

CADEIRYDD